

# HUNANASESIAD 2021/2022

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# CYNNWYS


## Tudalen(nau)


| | |
|---|---|
| 03 | Cyflwyniad |
| 04 | Beth yw Hunanasesiad? |
| 05-07 | Datblygu ein dull o gynnal Hunanasesiad |
| 08 | Sylfaen Dystiolaeth 2021/2022 |
| 09-11 | Crynodeb o Berfformiad 2021/2022 |
| 12 | Sut bu Ymgynghori ac Ymgysylltu yn ystod 2021/2022 yn llywio Blaenoriaethau'r Cyngor |
| 13-26 | Crynodeb o'r Asesiadau Critigol Lefel Uchel |
| 27-28 | Diweddglo |
| 29-35 | Cynllun Gweithredu |


Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cyflwyniad

## Gan Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, y Cynghorydd Steve Hunt, a'r Prif Weithredwr, Karen Jones



Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Hunanasesiad Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2021/2022.

Mae cwblhau hunanasesiad blynyddol yn ofyniad newydd i holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r gofyniad yn rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae'n asesiad corfforaethol, sefydliadol yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol.

Fel rhan o'r hunanasesiad, mae gofyn ein bod yn ystyried i ba raddau mae'r Cyngor yn:

- ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol (i ba raddau rydyn ni'n llwyddo)
- defnyddio'i adnoddau'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol (sut rydyn ni'n gwybod)
- sicrhau bod ei lywodraethiant yn effeithiol ar gyfer diogelu'r uchod (beth gallwn ni wneud yn well a sut)

Wrth ymgymryd â'r broses hunanasesu hon, yn ogystal â nodi pa drefniadau sydd gennym ni ar gyfer sicrhau ein bod ni'n gwneud yr uchod yn dda, rydyn ni hefyd wedi ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau hynny, a sut mae modd eu gwella ymhellach.

Y Cynghorydd Steve Hunt – Arweinydd

Karen Jones – Prif Weithredwr





Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

04





# Beth yw Hunanasesiad?

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 broses newydd ar gyfer monitro perfformiad pob awdurdod lleol ar sail hunanasesiad.

Mae hunanasesiad yn ddull beirniadol, gonest o adolygu'r sefyllfa bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae'r cyngor yn cydnabod y bydd cynnal hunanasesiad yn galluogi swyddogion ac aelodau i feithrin, a chefnogi ymhellach, ddiwylliant lle gall y cyngor herio'r ffyrdd presennol o weithio yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut mae'r cyngor yn gweithredu a sut mae dysgu o arfer gorau.


Mae hunanasesiad tryloyw ac agored yn allweddol i addasu ar gyfer y dyfodol yn y cyfnod heriol y cawn ein hunain ynddo.

Ar ei lefel symlaf, diben yr hunanasesiad yw gofyn y cwestiynau canlynol:

- I ba raddau rydyn ni'n llwyddo?
- Sut rydyn ni'n gwybod?
- Beth gallwn ni wneud yn well a sut?

Mae myfyrio ar y 3 chwestiwn yma wedi galluogi'r cyngor i gael hyd i waelodlin cynhwysfawr a fydd yn gweithredu fel meincnod yn y blynyddoedd sy'n dod ac yn cefnogi cyflwyno cynlluniau a strategaethau'r dyfodol.

## Amserlen ar gyfer cwblhau Hunanasesiad Castell-nedd Port Talbot 2021/2022



# 05 Datblygu ein dull o ymdrin â hunanasesiad

Nid yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhagnodi pa ddull y dylai cynghorau unigol ei fabwysiadu wrth gwblhau hunanasesiad. Galluogodd hyn y cyngor i benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun, a luniwyd i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol a strwythurau corfforaethol, wedi'i lywio gan arfer gorau.

Wrth ddatblygu ein dull gweithredu buon ni'n cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Nid dyfarniad disymud yw hunanasesiad. Er mwyn bod yn wirionedd effeithiol, dylai gwreiddio hunanasesu ar draws y cyngor fod yn broses barhaus, gyda materion yn derbyn sylw wrth gael eu nodi, a chan ymateb yn effeithiol mewn amser go iawn i heriau a chyfleoedd.
- Dylai proses yr hunanasesiad annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethiant y cyngor .
- Dylai'r hunanasesiad gael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol, ond gan gynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel yn y sefydliad, ac ystod o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.
- Dadansoddiad seiliedig ar dystiolaeth yw'r hunanasesiad, sy'n gweithredu trwy ddeall beth mae gwybodaeth feintiol ac ansoddol yn datgelu am sut mae'r cyngor yn ymarfer ei swyddogaethau, yn defnyddio'i adnoddau, ac yn llywodraethu ei hun.
- Dylai'r hunanasesiad ganolbwyntio ar ganlyniadau, a'r hyn a gyflawnwyd yn hytrach na'r broses.
- Nid yw'r hunanasesiad i fod yn broses ynysig, yn hytrach dylid ei integreiddio fel rhan o brosesau cynllunio corfforaethol, perfformiad a llywodraethiant y cyngor.





O'r cychwyn cyntaf, roedd yn bwysig sicrhau y byddai'r dull gweithredu oedd yn cael ei fabwysiadu yn golygu bod modd sefydlu gwaelodlin cynhwysfawr a darparu tystiolaeth o welliant o flwyddyn i flwyddyn. Gwelliant yn y cyd-destun hwn yw'r gallu i wneud y canlynol:

- cyflawni yn erbyn blaenoriaethau;
- parhau'n alluog ac yn gallu addasu er mwyn ymateb i'r amgylchedd heriol; ac
- ystyried sut mae prosesau mewnol a phobl yn gweithredu er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y tymor hwy.

# 06 Datblygu ein dull o ymdrin â hunanasesiad parhad...

Cynhaliwyd gwaith ymchwil helaeth i lywio'r dull gweithredu, gan gynnwys:

- Trafodaethau gyda WLGA ar ddysgu o ddulliau gweithredu eraill ledled Cymru
- Adolygiad academaidd o fodelau presennol a ddefnyddir mewn hunanasesiad ar gyfer datblygu sefydliadol a llwyddiant cynaliadwy:

  - **Y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Ansawdd (EFQM)**
  - **Rheoli Ansawdd Hollgynhwysol (TQM)**
  - **Gwobr Ansawdd Cenedlaethol Malcolm Baldridge (MBNQA)**
  - **ISO 9001**
  - **Offeryn Hunanasesu Monitro Effeithlonrwydd yr LGA**

- Cyfweliadau gydag academia yn Ysgol Rheolaeth Prifysgol Abertawe
- Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Ran 6, Pennod ?? o'r Ddeddf

Yn dilyn gwerthusiad o'r gwaith ymchwil uchod, penderfynwyd defnyddio Offeryn Hunanasesu Monitro Effeithlonrwydd yr LGA.

Mae'r Offeryn wedi'i strwythuro o amgylch y 7 gweithgaredd allweddol canlynol:

1. Rôl y Cyngor
2. Cael y gorau o'r gweithlu
3. Caffael a chomisiynu
4. Digidol a thechnoleg
5. Rheoli incwm a gwariant
6. Rheoli risg yn effeithiol
7. Data a gwybodaeth a gasglwyd

Er eu bod wedi'u geirio ychydig yn wahanol, mae'r gweithgareddau yn Offeryn yr LGA yn cwmpasu'r holl weithgareddau craidd sy'n gyffredin i lywodraethiant cyrff cyhoeddus, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

1. Cynllunio corfforaethol
2. Cynllunio'r gweithlu
3. Caffael
4. Asedau
5. Cynllunio ariannol
6. Rheoli risg
7. Rheoli perfformiad

Bydd ystyried y saith gweithgaredd craidd yn fframwaith ar gyfer yr hunanasesiad, a chymhwyso'r 5 ffordd o weithio i'r meysydd hynny, yn cefnogi'r cyngor i sicrhau ei fod yn llywodraethu ei hun er mwyn mwyafu ei gyfraniad i'r saith nod llesiant a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a 4 amcan llesiant y cyngor a geir yn y Cynllun Corfforaethol – Adfer, Ailosod, Adnewyddu 2022/2027. Cydnabyddir bod yr asesiad o asedau wedi'i gyfyngu i ddigidol, data a thechnoleg. Bydd hyn yn derbyn sylw yn hunanasesiad 2022/2023, pryd caiff asedau eu hehangu i gynnwys asedau ffisegol a chyfleusterau

Rydym hefyd wedi cynnwys y gweithgaredd craidd atodol canlynol, a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein gwaith ymchwil ar gyfer yr hunanasesiad fel elfen hanfodol o drefniadau llywodraethiant effeithiol:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Bydd strwythuro'r hunanasesiad o amgylch y 7 gweithgaredd craidd yn golygu bod modd sefydlu gwaelodlin ac olrhain gwelliant wedi hynny mewn blynyddoedd i ddod.

Addaswyd Pecyn Offer yr LGA rywfaint i ofyn y cwestiynau a fydd yn rhoi golwg wrthrychol ar ein perfformiad cyfredol, a sgoriwyd y rhain yn erbyn – *Datblygu, Aeddfed, ac Arweiniol*.










# 07 Datblygu ein dull o ymdrin â hunanasesiad parhad...

**CAM 1**

I gychwyn yr hunanasesiad paratowyd asesiadau lefel uchel o berfformiad y cyngor yn ystod 2021/2022 ar draws y 7 gweithgaredd craidd gan Uwch Reolwyr, a fu hefyd yn darparu asesiad o sefyllfa pob gweithgaredd craidd mewn perthynas â statws ***Datblygu, Aeddfed ac Arweiniol*** (fel y mesurir ym Mhecyn Offer yr LGA). Cafodd y sylwadau beirniadol a'r asesiadau eu hadolygu gan ymgynghorydd annibynnol.



Ymgynghorwyd â sawl grŵp ar berfformiad:

- Tîm Uwch-Reolwyr CNPT
- Rheolwyr Atebol CNPT
- Y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio
- Y Cabinet

**CAM 2**

Defnyddiwyd yr asesiadau yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth mewn gweithdy hanner diwrnod a fynychwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli (Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth), ac a hwyluswyd gan yr ymgynghorydd annibynnol. Yn ystod y gweithdy, gofynnwyd i Uwch-Swyddogion wneud sylwadau gonest ac agored ar yr asesiadau hyn, a nodi a oeddent yn teimlo bod yr asesiad yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r sefyllfa yn 2021/2022. Yn dilyn gweithdy'r Uwch Dîm Rheoli, cynhaliwyd dau weithdy arall ar gyfer Rheolwyr Atebol ar draws y Cyngor, unwaith yn rhagor er mwyn myfyrio ar yr asesiad, gan gymryd i ystyriaeth arferion gwaith presennol a chyflwyno gwasanaeth o bersbectif rheolwr a chan gydweithio'n agos â'r staff, a hefyd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Cynhwysir adborth o'r sesiynau hyn yn yr asesiadau gweithgaredd craidd a gyflwynir ar dudalennau 13-26. Adborth y staff a fu'n mynychu'r gweithdai oedd bod y sesiynau'n ddefnyddiol ac yn rhoi esboniad clir ar y gweithgareddau craidd, gyda chyfle i nodi ble gellid gwella.



**CAM 3**


Ar sail yr asesiadau o weithgarwch craidd a'r adborth a gafwyd yn y gweithdai, nodwyd cyfleoedd i wella (i gynyddu i ba raddau bydd y cyngor yn cyflawni'r gofynion perfformiad yn 2022/2023 ac wedi hynny), ac fe'u ceir yn y Cynllun Gweithredu ar dudalennau 29-35. Nodwyd nifer o'r cyfleoedd i wella yn ystod 2021/2022 fel rhan o'r gwaith helaeth ar draws y cyngor i ddatblygu Cynllun Corfforaethol diwygiedig y cyngor ar gyfer y cyfnod 2022/2027. Mae'r Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth strategol y cyngor ac roedd yn cynnwys rhaglen o ddatblygiad sefydliadol er mwyn datblygu capasiti a gallu'r cyngor dros gyfnod o 3-5 mlynedd. Mae'r ymarferiad hunanasesu wedi rhoi sicrwydd mai'r cyfleoedd i wella a nodwyd yn ystod 2021/2022 oedd y pethau cywir i fod yn canolbwyntio arnyn nhw yn ystod 2022/2023 ac o hynny allan. Ceir manylion y cynnydd ar y meysydd gwelliant hynny yn y Cynllun Gweithredu.

> ***"Fe wnes i fwynhau'r gweithdy'n fawr, roedd wedi'i gynllunio'n dda ac rwy'n teimlo ein bod ni wedi elwa llawer. Diolch am drefnu, roedd yn dda iawn cael y cyfle yna i roi adborth."***

**CAM 4**

Cyflwynwyd yr hunanasesiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 15 Chwefror 2023. Rhan o rôl y Pwyllgor yw adolygu'r hunanasesiad drafft, a gall gyflwyno argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau. Yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor, ni chynigiwyd argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i'r casgliadau na'r camau gweithredu.

# Sylfaen Dystiolaeth 2021/2022




Yn ogystal â chwblhau'r sylwadau beirniadol lefel uchel ar berfformiad y cyngor yn ystod 2021/2022 ar draws y 7 gweithgaredd craidd, rydym hefyd wedi ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad yn ystod 2021/2022. Defnyddiwyd peth o'r dystiolaeth i lywio adroddiadau blynyddol eraill, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2021/2022 a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2021/2022.

Gellir cyflwyno'r dystiolaeth mewn tri chategori sydd wedi ategu'r casgliadau a luniwyd yn achos y sylwadau beirniadol lefel uchel.

Mae ymgysylltiad rhanddeiliaid yn rhan annatod o sut rydym ni'n gweithredu'n barhaus – galluogi cyflwyno gwasanaethau o safon dda a chefnogi gwelliant. Oherwydd yr ystod eang o swyddogaethau a meysydd gwasanaeth mae ein dull o ymgysylltu wedi amrywio. Cyn Covid, sefydlwyd Cymuned o Ymarfer (Ymwneud ac Ymgysylltu) i gynnwys ein cymunedau a'n hasiantaethau partner o'r cychwyn yn y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud i helpu i lunio cynigion cyn ymarferiadau ymgynghori ehangach â'r cyhoedd. Cynhaliwyd digwyddiadau a ddaeth â mwy na 28 o bartneriaid allweddol at ei gilydd, gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, gofalwyr, pobl ag anableddau, siaradwyr Cymraeg a phartneriaid.

## Categori 1 – Tystiolaeth Fewnol

Mae'r dystiolaeth yn y categori hwn yn rhoi golwg fewnol ar berfformiad y cyngor yn ystod 2021/2022:

- Y Cynllun Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol
- Dogfennaeth i lywio datblygiad Cynllun Corfforaethol 2022-2027 – gwnaed gwaith aruthrol ar draws y cyngor i fyfyrio ar y cyflawniadau hyd yma a phennu blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sy'n dod
- Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Adroddiad Blynyddol
- Datganiad o'r Cyfrifon
- Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- Adroddiadau Perfformiad Chwarterol y
- Cabinet
- Adroddiadau Perfformiad Chwarterol y Cabinet
- Y Gofrestr Risgiau
- Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion
- Adroddiadau Monitro Cyllideb Chwarterol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol

## Categori 2 – Adroddiadau Rheoleiddio/Archwilio

Mae'r dystiolaeth yn y categori hwn yn darparu golwg reoliadol neu allanol ar berfformiad gan gyrff annibynnol.

- Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilio Cymru
- Adroddiadau Archwilio Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygu Estyn
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Categori 3 – Ymgynghori ac Ymgysylltu

Daw'r dystiolaeth yn y categori hwn drwy wrando ar staff, trigolion a busnesau am eu profiadau o wasanaethau a gweithio yn yr awdurdod. Mae'r ymgysylltu wedi datblygu'n sylweddol ers y pandemig ac mae'n hollbwysig o ran sut mae'r Cyngor yn gwella ac yn cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae ymgyrch Dewch i Sgwrsio'r Cyngor, y Cyngor Ieuenctid, y Panel Dinasyddion a'r Gymuned o Ymarfer yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i wrando a bod yn atebol i weithredu ar sail adborth.

- Ymgyrch Ymgynghori ac Ymgysylltu Dewch i Sgwrsio (Cynllun Corfforaethol 2022-2027 a Chyllideb 2022/2023)
- Cyfarfodydd Undebau Llafur
- Y Cyngor Ieuenctid
- Y Panel Dinasyddion
- Arolygon Gweithio Hybrid y Staff
- Cymuned o Ymarfer (Ymwneud ac Ymgysylltu)
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth Datblygu Economaidd
- Ymgynghori
- Gweithdai Uwch-Reolwy
- Gweithdai Rheolwyr Atebol



# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2021/2022

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn yn crynhoi rhai o'r adroddiadau a gafwyd yn y 3 chategori, sef mewnol, allanol ac ymgynghori/ymgysylltu a ddefnyddiwyd i gefnogi'r hunanasesiad.

## Amcanion Llesiant

Yr amcanion llesiant oedd ar waith yn ystod 2021/2022 oedd:

- Gwella llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol
- Datblygu'r amgylchedd a'r economi lleol fel bod modd gwella llesiant pobl.

Cymeradwywyd yr amcanion llesiant gan y Cyngor yn 2017. O dan bob amcan llesiant mae yna gamau a blaenoriaethau gwelliant. Mae'r blaenoriaethau gwelliant yn cyflwyno'r gwelliant cyffredinol rydym ni'n ceisio'i gyflawni ac mae'r camau'n nodi'r gweithredu strategol byddwn ni'n ei wneud i gyflawni'r gwelliant hwnnw.

Yn achos 2021/2022, roedd 77% o'r camau (72 o 93) ar y llwybr cywir, a 21 fymryn oddi arno. Mae hyn yn well nag yn 2020/2021 pan oedd 65% o'r camau ar y llwybr cywir, a 24 fymryn oddi arno. Mae'r cynnydd cyffredinol o ran y camau yn dangos bod gwasanaethau wedi dechrau adfer yn ystod 2021/2022. Roedd yr adferiad hwn yn erbyn cefnlen o effeithiau ac amharu sylweddol a achoswyd gan y pandemig (yn ystod 2020/2021 a 2021/2022).

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

I asesu ein perfformiad o ran cyflawni ein hamcanion llesiant yn ystod 2021/2022, ochr yn ochr â'r cynnydd uchod ar y camau, defnyddiwyd 58 o ddangosyddion perfformiad.

Mae'r crynodeb isod yn dangos bod cyfran uwch o ddangosyddion perfformiad allweddol y cynllun corfforaethol wedi cyrraedd eu targedau yn 2021/22 o gymharu â 2020/21 ac 2019/20 a bu cynnydd o 3% yn y ganran oedd yn gwella o gymharu â 2020/21.

**Dylid bod yn wyliadwrus wrth gymharu, oherwydd perfformiad rhai mesurau ar draws 2020/21 a 2021/22 oherwydd effaith pandemig Covid-19.*

*Cymharu yn erbyn Targedau* – Yn ystod 2021/22, o'r dangosyddion perfformiad oedd â thargedau cymaradwy, cyrhaeddodd 70% (28 o 40) y targed, roedd 7.5% (3 o 40) o fewn 5% i'r targed ac roedd 22.5% (9 o 40) 5% neu fwy o dan y targed.


Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â 2020/21 pan gyrhaeddodd 61% (23 o 38) y targed, roedd 18% (7 o 38) o fewn 5% i'r targed, ac roedd 21% (8 o 38) 5% neu fwy o dan y targed a bennwyd. Yn 2019/20, cyrhaeddodd 54% y targed.

*Cymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol* – Yn 2021/22, bu 60% (29 o 48) yn gwella neu'n cynnal perfformiad, 15% (7 o 48) yn dirywio rhyw fymryn, ond o fewn 5% a 25% (12 o 48) yn dirywio 5% neu fwy.

IYn 2020/21, bu 57% (24 o 42) yn gwella neu'n cynnal perfformiad, 24% (10 o 42) yn dirywio rhyw fymryn, a 19% (8 o 42) yn dirywio 5% neu fwy. Yn 2019/20, bu 63% (32 o 51) yn gwella neu'n cynnal perfformiad.

Ymhlith yr enghreifftiau o welliannau mae mwy o ddisgyblion blwyddyn 11 yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, sy'n debygol o gynyddu'n gyson yn ystod y 3 blynedd nesaf, yr asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon (99%), canlyniadau rhaglen gyflogadwyedd sy'n gysylltiedig â Gweithffyrdd+, Cymunedau dros Waith (16-24) a Chymunedau dros Waith a Mwy, cynnydd yn y prentisiaethau o fewn y cyngor, prosesu budd-daliadau yn gynt, gwelliant pellach yng nghyflwr ffyrdd A, B ac C, cynnydd yng nghyfraddau casglu treth y cyngor a Threthi Cenedlaethol Annomestig, a mwy o wasanaethau ar gael ar-lein.





# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2021/2022 parhad...

Fe wnaethon ni hefyd gyflawni neu ragori ar ein targedau ar gyfer ystod o fesurau sy'n cynnwys ein cyfraddau ailgylchu (er bod y gyfradd ailgylchu wedi gostwng rhyw fymryn), glendid strydoedd, busnesau bwyd yn bodloni safonau hylendid bwyd (97%), canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, ein ffigur Heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), gwersi perthnasoedd iach i ddisgyblion, mesur ansawdd aer, 410 o swyddi wedi'u creu/diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod a % yr etholwyr llywodraeth leol a ddilyswyd ac a gofrestrwyd i bleidleisio.

Mae peth o'n perfformiad wedi dirywio a/neu wedi methu â chyrraedd targedau yn ystod y flwyddyn, ac mae effeithiau'r pandemig yn dal i'w gweld ar bron y cyfan o'r rhain, gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG), Cymunedau dros Waith (25+ oed), atgyfeiriadau eildro risg uchel cam-drin domestig, yr amser a gymerir i glirio sbwriel a ollyngwyd yn anghyfreithlon, y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon a chyfraddau salwch y cyngor (sydd wedi cynyddu'n sylweddol).

Roedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn gan y cyhoedd o dan y targed, ac yn dangos gostyngiad bychan mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, gwellodd perfformiad yn ail hanner y flwyddyn. Mae'r cyswllt â phobl ifanc trwy'r gwasanaeth ieuenctid ac ymweliadau â theatrau, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd yn dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Ceir rhagor o fanylion am gyflawniadau gwasanaeth yn Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2021/2022

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) / Meincnodi Perfformiad y Cyngor

Yn flaenorol, ar lefel y cyngor, cymharwyd perfformiad ag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, yn erbyn y set genedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs). Fodd bynnag, peidiodd y mesurau hynny â chael eu casglu a'u cymharu'n genedlaethol yn 2021. Serch hynny, mae nifer o'r mesurau hyn yn dal i gael eu meincnodi gan ein meysydd gwasanaeth. Mae nifer o wasanaethau hefyd yn rhannu arfer da a gwybodaeth trwy grwpiau meincnodi.

Ar hyn o bryd mae Data Cymru yn datblygu cyfres o fesurau gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot, y gellir eu defnyddio i feincnodi ar lefel gwasanaeth a chyngor. Yn y cyfamser, bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn adolygu ein trefniadau meincnodi ein hunain er mwyn eu cryfhau a'u gwella ymhellach.

Ar lefel weithredol, mae meysydd gwasanaeth 2022/23 wedi cwblhau hunanasesiad o berfformiad wrth ddatblygu eu Cynlluniau Adfer Gwasanaeth (SRP). O fewn y canllawiau SRP, anogir gwasanaethau i feincnodi eu perfformiad (e.e. gyda sefydliadau eraill) lle mae data ar gael. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu a'i chryfhau ymhellach yn ystod 2022/23.

## Cwynion a Chanmoliaeth

Mae cwynion a chanmoliaeth yn darparu gwybodaeth werthfawr ynghylch ein perfformiad a barn ein cwsmeriaid am ein gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cwyno yn dweud wrthyn ni beth rydyn ni wedi'i wneud o le a sut gallwn ni wella. Rydyn ni'n defnyddio'r adborth yma i wella ein gwasanaethau. Mae cyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos ymrwymiad y cyngor i dryloywder ac agwedd gadarnhaol at gydnabod, ymchwilio i gwynion, ymateb iddynt a dysgu oddi wrthynt. Cewch hyd i adroddiad blynyddol 2021/2022 yma.

Bu cynnydd yn nifer y cwynion Cam 1 a dderbyniwyd ar draws y Cyngor, o 102 a ddaeth i law yn 2020/2021, i 111 a ddaeth i law yn 2021/2022. Fodd bynnag, y ganran a gadarnhawyd/gadarnhawyd yn rhannol yn ystod 2021/2022 oedd 19.82% (22 o 111). Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn 2020/2021 y ganran oedd 23.53% (24 o 102) ac yn 2019/2020 y ganran oedd 31.76% (47 o 148). Bu cynnydd yn nifer y cwynion Cam 2 a dderbyniwyd, o 14 yn 2020/2021 i 25 yn 2021/2022. Fodd bynnag, dim ond 2 o'r cwynion Cam 2 a gadarnhawyd/gadarnhawyd yn rhannol (8.33%) – cynnydd o un yn unig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan gafodd 1 o'r 14 cwyn (7.14%) Cam 2 a ddaeth i law ei chadarnhau/chadarnhau'n rhannol.

Ni ellid cysylltu methiannau systemig â maes gwasanaeth penodol ar sail yr achosion yr adroddwyd amdanynt ac yr ymchwiliwyd iddynt.

Bu cynnydd cyson yn y ganmoliaeth o flwyddyn i flwyddyn, o 115 yn 2017/18 i 360 yn 2020/2021. Fodd bynnag, yn 2021/2022 bu gostyngiad yn y ganmoliaeth a gafwyd, ac aeth y nifer i lawr i 249.

# CRYNODEB O BERFFORMIAD parhad...

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith 2016: Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol, a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (CIPFA). Er mwyn cydymffurfio â'r Fframwaith, cyhoeddodd y cyngor Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol, sy'n esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i alluogi'r cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r cyngor. Mae'r fframwaith yn cyfuno set waelodol o ofynion cyfreithiol, arfer da a phrosesau rheoli




Mae cwblhau'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor, sy'n golygu gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn cael ei redeg yn gywir, yn gwneud y pethau cywir ar yr adeg gywir yn y ffordd gywir, a hefyd bod:

- Ei waith yn digwydd yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- Arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a rhoddir cyfrif priodol amdano;
- Penderfyniadau cadarn a chynhwysol yn cael eu gwneud;
- Adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod
- Atebolrwydd clir am y defnydd o'r adnoddau hynny i gyflawni blaenoriaethau sydd o fudd i bobl a chymunedau lleol

Nododd yr hunanasesiad o effeithiolrwydd rheolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn 2021/2022 6 maes ar gyfer gwelliant, a cheir hyd i'r rhain yn y Cynllun Gweithredu ar dudalennau 29-35. Cewch hyd i Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2021/2022 yma.

# Sut bu Ymgynghori ac Ymgysylltu yn ystod 2021/2022 yn llywio Blaenoriaethau'r Cyngor

Digwyddiadau Cymunedol

Cyngor Ieuenctid

Dewch i Sgwrsio

Panel Dinasyddion

Arolygon Staff

Cymuned o Ymarfer

Cafodd Cynllun Corfforaethol y cyngor 2022-2027 – Adfer, Ailosod, Adnewyddu ei lywio gan lawer o bobl – trigolion, cyflogeion, aelodau etholedig, sefydliadau cymunedol, busnesau a phartneriaid eraill. Dechreuodd yr ymgysylltu mewnol yn ystod gwanwyn 2021 i gadarnhau'r gwersi a ddysgwyd a'r blaenoriaethau ar gyfer adferiad. Roedd hyn yn cynnwys gwneud pob rheolwr atebol yn rhan o gwblhau asesiadau strategol er mwyn canfod y gwersi a ddysgwyd a'r cynigion ar gyfer ffurf gwasanaethau yn y dyfodol.

Bu Panel Aelodau trawsbleidiol ar y Coronafeirws yn cwrdd ar bum achlysur (rhwng Mawrth 2021 a Thachwedd 2021) i drafod dulliau o ffurfio sylfaen yr adferiad o'r pandemig a hefyd cynhaliwyd nifer o Seminarau i'r holl Aelodau i drafod cynllunio adferiad.


Cychwynnodd cyfnod cyntaf ymgysylltiad cyhoeddus "Dewch i Sgwrsio" ar 19 Gorffennaf, a nod y cyfnod hwn oedd canfod beth oedd yn bwysig i bobl leol yng nghyswllt adferiad wedi Covid-19. Cafwyd dros 1,700 o ymatebion. Llywiodd yr adborth y pedwar amcan llesiant drafft a ffocws arfaethedig y gwaith o dan bob amcan llesiant yn ystod 2022/2023, yn ystod y 5 mlynedd nesaf a'r tymor hwy.

Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, bu'r Prif Weithredwr yn ymweld â nifer o wardiau ar draws y fwrdeistref sirol i siarad â'r Aelodau lleol, grwpiau a thrigolion ynghylch beth oedd yn bwysig i bobl leol yng nghyd-destun adferiad.

Roedd ail gyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus, a gychwynnodd ar 5 Ionawr 2022, yn profi a oeddem wedi llwyddo i ddal gafael ar beth sy'n bwysig i bobl nawr ac yn y dyfodol o ran y newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud yn ystod y 12 mis nesaf, y 5 mlynedd nesa a'r tymor hwy.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno/cytuno'n bendant â'r pedwar amcan llesiant drafft, ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r holl bethau y dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw yn ystod y 12 mis nesaf a'r tymor hwy. Roedd nifer o themâu cyson yn yr adborth manwl o dan bob amcan llesiant, a newidiwyd y Cynllun drafft i adlewyrchu'r adborth hwnnw.

Ar ben hynny, bu'r Prif Weithredwr yn mynychu nifer o ddigwyddiadau ymgynghori i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Cynllun (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Fforwm Cyswllt y Sector Gwirfoddol; y Cyngor Staff; ymgynghoriad y 3ydd sector; Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned.








Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

## Mae'r adran sy'n dilyn yn cynnwys

## Crynodeb o'r Asesiadau Lefel Uchel ar gyfer pob gweithgarwch craidd yn 2021/2022

- Cynllunio Corfforaethol - *Rôl y Cyngor*
- Cynllunio’r Gweithlu - *Cael y gorau o’r gweithlu*
- Arweinyddiaeth - *Arweinyddiaeth a Rheolaeth*
- Caffael - *Caffael a chomisiynu*
- Rheoli Risg - *Rheoli risgiau’n effeithiol*
- Digidol, Data a Thechnoleg
- Cynllunio Ariannol - *Rheoli gwariant/ Rheoli incwm*

# Crynodeb o’r asesiad lefel uchel

## Cynllunio Corfforaethol “Rôl y Cyngor”

Cynllunio Corfforaethol yw’r broses lle mae busnesau’n creu strategaethau ar gyfer cyflawni nodau busnes a chyflawni amcanion.

Yn ystod 2021/2022, cafodd Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2022 ei adolygu’n sylfaenol, a lansiwyd Cynllun newydd, yn nodi sut bydd y cyngor yn mynd ati i sicrhau adferiad wedi pandemig Covid-19 yn y tymor byr, canolig a hwy.

Yn ystod 2021/2022, cafodd Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2022 ei adolygu’n sylfaenol, a lansiwyd Cynllun newydd, yn nodi sut bydd y cyngor yn mynd ati i sicrhau adferiad wedi pandemig Covid-19 yn y tymor byr, canolig a hwy. Llywiwyd y Cynllun ‘Adfer, Ailosod, Adnewyddu’ gan chwe mis o ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau ein bod yn cymryd i ystyriaeth farn pobl oedd yn byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref sirol, partneriaid, busnesau, undebau llafur ac ymwelwyr, a hynny o’r cyfnodau cynharaf. Sicrhaodd hynny fod y Cynllun yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad gwirioneddol. Cafodd y Cynllun ei lywio hefyd gan ddadansoddiad o ffactorau eraill pwysig yr oedd angen eu cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys: tlodi, amddifadedd ac anghydraddoldeb; cyllid cyhoeddus; adferiad gwyrdd a datgarboneiddio; digideiddio; newid demograffig; dyfodol gwaith; cymuned; a pholisi’r llywodraeth.

Hefyd cafodd pwrpas, gweledigaeth, gwerthoedd, perthnasoedd a blaenoriaethau’r cyngor eu hailosod a’u hadnewyddu, gan gymryd i ystyriaeth:

- beth sy’n bwysig i bobl leol, busnesau a’n cyflogeion;
- yr effaith rydyn ni’n gwybod bod Covid-19 wedi’i chael ar ein cymunedau, ein heconomi leol a’n rhanddeiliaid ehangach;
- y gwersi rydym wedi’u dysgu o’n hymateb i’r pandemig ac o fannau eraill; a
- newidiadau eraill a ragwelir yn ein hamgylchedd allanol.

Mae’r Cynllun yn nodi’n glir Bwrpas, Gweledigaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau’r Cyngor:


**Pwrpas:** Helpu trigolion Castell-nedd Port Talbot i fyw bywydau da

**Ein Gweledigaeth:**

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy
- Bod cenedlaethau’r dyfodol yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a’n treftadaeth
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel

**Gwerthoedd:**

- Cysylltiedig – mae beth sy’n bwysig i chi yn bwysig i ni
- Gofalgar – rydyn ni’n gofalu amdanoch chi, eich bywyd, a dyfodol ein bwrdeistref sirol
- Cydweithredol – Rydym ni’n gweithio gyda’n dinasyddion a’n partneriaid oherwydd ein bod ni’n gallu cyflawni mwy gyda’n gilydd
- Hyderus – rydyn ni’n optimistaidd ac yn hyderus am y dyfodol



Mae’r cynllun yn crynhoi’r cyd-destun y cafodd ei ddatblygu ynddo, ac yn cyflwyno rhaglen newid strategol y cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sydd â phedwar amcan llesiant:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy
- Bod cenedlaethau’r dyfodol yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a’n treftadaeth
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel

Ar ben hynny, mae’r Cynllun yn cynnwys Rhaglen Alluogi – rhaglen o ddatblygu trefniadol er mwyn datblygu capasiti a gallu’r Cyngor dros gyfnod o 3-5 mlynedd i gyflawni’r newid trefniadol sylweddol sy’n angenrheidiol i gyflawni’r amcanion llesiant, y newidiadau diwylliant a’r rhaglenni gwaith cysylltiedig.

Elfen allweddol o gynllunio corfforaethol effeithiol yw rheoli perfformiad.

Mae’r cyngor yn deall yr angen am adolygu perfformiad gwasanaethau a sut mae gwneud hynny. O ran yr angen mae’r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol (FfRhPC) addas at y diben yn ei le, fel bod gan y cyngor gyfeiriad clir sy’n cysylltu/cyfuno holl waith y cyngor, o lefel y gweithiwr hyd at lefel y cyngor, a lle mae pawb yn glir o ran sut maen nhw’n cyfrannu at gyflawni gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau’r Cyngor.

Mae’n hanfodol bod ein cynllunio (gan gynnwys cynllunio’r gweithlu a chynllunio ariannol), ein perfformiad a’n prosesau risg yn gadarn ac wedi’u cydblethu â’n penderfyniadau ar bob lefel o’r sefydliad.

Mae’n bwysig bod gennym ni fecanweithiau yn eu lle i reoli a monitro perfformiad, a bod gan bawb yn y cyngor rôl yng nghyswllt rheoli perfformiad, a bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau ynghylch rheoli perfformiad.

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Cynllunio Corfforaethol "Rôl y Cyngor" parhad...

Bydd y prosesau hyn yn galluogi'r cyngor i gyflawni ei weledigaeth a'i werthoedd a chyflwyno amcanion llesiant y cyngor fel bod modd i ni wella'r deilliannau i'n trigolion a'n busnesau, ochr yn ochr â chyflawni gwerth am arian a chyfrannu at y 7 nod llesiant cenedlaethol.

Yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun Corfforaethol diwygiedig y cyngor a chynllunio ar gyfer adferiad, roedd yn amlwg nad oedd fframwaith rheoli perfformiad cyfredol y cyngor yn addas at y diben bellach. Cydnabuwyd bod angen gwaith i gryfhau trefniadau rheoli perfformiad y cyngor, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd (2022/2023) i ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol diwygiedig a fydd yn dangos bod y mecanweithiau uchod yn eu lle.

O ran sut mae adolygu perfformiad gwasanaethau, cydnabu'r cyngor yn 2021/2022 fod angen datblygu'r broses hon ymhellach, ac yn ystod 2021/2022 gwnaed gwaith paratoadol i ddatblygu templed Cynllun Adfer Gwasanaeth (CAG) i bob gwasanaeth ei gwblhau fel rhan o ddull y cyngor o sicrhau adferiad. Bwriad y CAG yw egluro ble mae'r gwasanaeth nawr, sut mae modd gwybod hynny, a beth mae angen ei wneud i wella a newid i gyrraedd y man lle rydych chi am fod.

Er bod peth gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau cysondeb ar draws y cyngor, roedd cytundeb cyffredinol yn y gweithdai, o'u mireinio'n barhaus, bod y Cynllun Corfforaethol a'r prosesau CAG oedd yn ei gefnogi yn addas at y diben ac wedi'u diffinio fel rhan o'r "llinyn aur".

Cydnabuwyd hefyd fod angen rhagor o waith ar draws meysydd gwasanaeth i gymryd i ystyriaeth sut mae trigolion yn cael mynediad at wasanaethau ac yn eu defnyddio, ac i fesur lefelau boddhad, a fydd yn derbyn sylw trwy ganllawiau diwygiedig, a gaiff eu cyflwyno er mwyn datblygu SRPs ar gyfer 2023/2024

Hyd yma defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys cyflwyno'r ymgyrch Dewch i Sgwrsio, y Gymuned ar Waith (Ymwneud ac Ymgysylltu) a Phanel Dinasyddion y cyngor.

Mae'r dulliau ymgysylltu hyn wedi bod yn eithriadol o gynhyrchiol, ac ar y cyd â Strategaeth Ymgysylltu ddiwygiedig (yn fewnol ac yn allanol) byddant yn galluogi'r Cyngor i gynnwys trigolion/defnyddwyr gwasanaeth a staff wrth ffurfio a datblygu'r gwasanaethau a gyflwynir i'r dyfodol.

***Casgliad yr Hunanasesiad: Mae'r cyngor yn aeddfed ym maes cynllunio corfforaethol***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Cynllunio'r Gweithlu 'Cael y gorau o'r gweithlu'

Mae'r cyngor o'r farn mai pobl sy'n gwneud y gwahaniaeth. Mae Cynllun Gweithlu'r cyngor 2018-2022 yn cyflwyno'r pwrpas a'r weledigaeth canlynol:

**PWRPAS:**

Sicrhau bod gan y Cyngor y nifer cywir o bobl â'r sgiliau a'r agweddau cywir ar yr adeg gywir i gyflawni ei wasanaethau a'i swyddogaethau.

**EIN GWELEDIGAETH AR GYFER EIN GWEITHLU**

Mae'n bwysig ein bod yn gallu mapio'r mesurau blaenoriaeth i'r gweithlu sy'n angenrheidiol i lunio gweithlu'r dyfodol a sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Yna gallwn ni gyflwyno beth sy'n bwysig i'n cymunedau a'n cwsmeriaid a chyflawni ein hamcanion llesiant a'r Flaenoriaeth o ran Gwella Rheolaeth ar y Gweithlu.

Mae'r cynllun hefyd yn cyflwyno'r weledigaeth ganlynol yn benodol mewn perthynas â gweithlu'r cyngor:


Pobl – rydym ni'n credu mai pobl sy'n gwneud y gwahaniaeth. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n rhoi arweiniad da i'n pobl, yn eu cefnogi, yn ymddiried ynddyn nhw ac yn cydnabod eu cyfraniad.

Bydd pobl yn cael eu trin yn deg ac â pharch, a hefyd yn cael eu hannog i gynnig syniadau ynghylch sut gallwn ni wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Byddwn ni'n datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ei gymunedau, a bydd pobl yn cael cyfle cyfartal i wneud cynnydd yn ein sefydliad. Byddwn ni'n datblygu diwylliant lle mae pobl yn atebol ac yn cael eu cydnabod am beth maen nhw'n ei wneud, a sut.

Mae Cynllun Gweithlu 2018 – 2022 yn cyflwyno aliniad ag amcanion llesiant y cyngor, cynllunio ariannol, cynllunio rheoli asedau a threfniadau llywodraethu, yn ogystal â'r rhaglen o newid corfforaethol. Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno pum thema allweddol i'r gweithlu ac mae'r cynllun cyflawni atodedig yn cyflwyno'r camau, y deilliannau a'r mesurau arfaethedig o dan bob un o'r themâu. Ar hyd 2021 / 2022 bu gwaith paratoadol yn mynd rhagddo i ddatblygu drafft o'r Cynllun Gweithlu Strategol: Strategaeth Dyfodol Gwaith ar gyfer y cyfnod 2022 – 2027, gan gyfateb i'r Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Newid Strategol ar gyfer yr un cyfnod.

Ar lefel gorfforaethol, nod Cynllun Gweithlu 2018 – 2022, a'r drafft o'r Cynllun Gweithlu Strategol: Strategaeth Dyfodol Gwaith 2022 – 2027 yw sicrhau bod yr adnoddau, y sgiliau a'r galluoedd cywir yn eu lle i gyflawni blaenoriaethau'r cyngor yn y tymor byr, canolig a hir.

Ar lefel gwasanaeth gweithredol, datblygwyd y Pecyn Offer Cynllunio Olyniaeth i gynorthwyo rheolwyr i baratoi Cynllun Olyniaeth lefel gwasanaeth er mwyn nodi a datblygu'r arweinwyr posibl i'r dyfodol a'r unigolion y mae angen amdanynt i lenwi swyddi eraill hanfodol i'n gwaith o fewn y cyngor, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'n dinasyddion. Lansiwyd y pecyn offer yn hwyr yn 2019.




Yn ystod 2021/2022, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu ar draws y Cyngor. Canfu'r adolygiad fod y cyngor, cyn Covid, wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynllunio'r gweithlu a datblygu prosesau ac offer clir, ac roedd yn ymwybodol bod angen iddo wneud mwy i wreiddio hyn yn gyson ar draws pob lefel a gwasanaeth.

Nododd yr adolygiad nifer o gryfderau:

- Cynllun gweithlu strategol yn ei le, gyda chynllun gweithredu ✓
- Grŵp Cynllunio'r Gweithlu hir-sefydledig sy'n canolbwyntio ar ailgyfeirio ✓
- Perthynas waith gref, gadarnhaol gydag Undebau Llafur ✓
- Cefnogaeth Dysgu a Datblygu effeithiol yn ei lle ✓
- Roedd gwaith cynllunio'r gweithlu wedi nodi prosiectau ychwanegol ✓
- Adborth cadarnhaol gan gyflogeion ✓
- Proses glir ar gyfer datblygu cynlluniau gweithlu ar lefel weithredol ✓

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Cynllunio'r Gweithlu 'Cael y gorau o'r gweithlu' parhad...

Yn ystod Covid, canfu Archwilio Cymru fod cynllunio adweithiol y cyngor o ran y gweithlu wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig, gyda ffocws cryf ar gynnal gwasanaethau hanfodol a sicrhau llesiant cyflogeion. Mae'r pandemig wedi amlygu i'r cyngor werth pobl a gwerth cynllunio sut mae'r bobl hynny'n gweithio. Mae cynllunio yn bwysicach nag erioed, gyda'r cyngor yn wynebu heriau recriwtio a chadw staff, ochr yn ochr â'r angen am sgiliau newydd a ffyrdd newydd o weithio.

Mae gan y cyngor offer strategol a gweithrediadol ar waith i greu cynlluniau gweithlu effeithiol. Mae cyfle gan y cyngor i adeiladu ar y momentwm presennol lle mae pobl wedi cydnabod yr angen am gynllunio'n effeithiol i'r dyfodol. Dylai'r cyngor egluro'i weledigaeth ei hun ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar ôl ystyried nifer o themâu allweddol sydd wedi codi yn ystod ein gwaith maes.

Ymhlith y cryfderau a nodwyd roedd:

- Sefydlu grwpiau gweithlu yn gynnar
- Cynnal arolygon o gyflogeion ar gyfer ailgyfeirio
- Recriwtio a hyfforddi ar gyfer timau newydd
- Cydweithio ar draws ffiniau, canolbwyntio ar y tasgau a'r trigolion, nid y gyllideb
- Prawf clir bod gweithio o bell yn effeithiol
- Prosesau AD yn dychwelyd yn gyflym
- Nawr yn edrych ar y 'normal newydd'
- Ffocws ar lesiant cyflogeion

Nododd adolygiad Archwilio Cymru nifer o feysydd ar gyfer gwelliant, gan gynnwys argymhellion ar gyfer blaenoriaethau'r gweithlu, i'w hystyried fel rhan o'r iteriad nesaf arfaethedig o gynllun y gweithlu.

O ganlyniad i waith Archwilio Cymru ac adolygiad o Gynllun Gweithlu 2018 – 2022 cychwynnwyd nifer o gamau gweithredu eisoes fel rhan o Raglen Newid Strategol y cyngor (Cynllun Corfforaethol 2022/2027), gan gynnwys sefydlu Tîm Dyfodol Gwaith a Thasglu Recriwtio – adnoddau ychwanegol i ategu'r gwasanaeth Datblygu Trefniadaeth a Phobl er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglen uchelgeisiol hon a gyrru strategaeth recriwtio'r cyngor.

Yn ystod yr hunanasesiad, roedd agwedd gyffredinol gadarnhaol gan Uwch-reolwyr a Rheolwyr Atebol ynghylch Cynllunio'r Gweithlu ar draws y cyngor.

Yn arbennig y gwaith o amgylch datblygiad y Cynllun Gweithlu Strategol: Strategaeth Dyfodol Gwaith 2022 – 2027, recriwtio a chynllunio olyniaeth a wnaed yn ystod 2021/2022.

Cadarnhaodd yr adborth o'r holl weithdai fod cyfathrebu ac ymgysylltu â'r staff yn allweddol yn natblygiad y Cynllun Gweithlu Strategol. Roedd y sylwadau o'r gweithdy Rheolwyr Atebol yn cynnwys y teimlad bod uwch-reolwyr yn gefnogol, yn canolbwyntio ar atebion, yn agored i drafodaeth a syniadau, ac yn barod i gymryd risgiau gwybodus. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau ar yr angen am roi mwy o bwyslais ar gynllunio tymor hir.




***Casgliad yr Hunanasesiad: mae'r cyngor yn aeddfed o ran cynllunio'r gweithlu ac mae'n symud tuag at statws arweiniol.***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Arweinyddiaeth - 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth'

### Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar draws y cyngor wedi cryfhau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac amlygwyd hynny ymhellach pan gawsom ein taflu i bandemig byd-eang. Fel pob awdurdod arall ar draws y Deyrnas Unedig, roedd y galw am gefnogaeth a gwasanaethau yn rhyfeddol, gyda staff yn mynd ati ar unwaith i ddarparu cymorth i drigolion, busnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Dangosodd asesiadau pellach, ac archwiliadau, a gynhaliwyd yn ystod 2021/2022, effaith arweinyddiaeth gref ar draws Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Adlewyrchir hyn yn bennaf gan adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr y Cyngor (Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn). Roedd un adroddiad o'r fath[1] yn barnu bod llywodraethiant ac arweinyddiaeth tîm Troseddu Ieuenctid y cyngor yn 'neilltuol'. Yn yr un modd, cymerwyd y dyfyniad canlynol o adroddiad yr Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant[2] lle cafodd arweinyddiaeth a rheolaeth y gwaith hwn ei adolygu, gyda'r staff yn cadarnhau 'Cafwyd arweiniad cryf gan swyddogion yr awdurdod lleol, a aeth ati'n strategol ac yn weithredol i hybu diwylliant diogelu effeithiol ar draws pob ysgol'.


Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd gweithdy gan Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2022, yn nodi eu Hasesiad Risg a Sicrwydd [3], gan fanylu ar y risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r camau nesaf. Un o'r ffactorau sicrwydd a restrwyd ar gyfer y flwyddyn oedd bod Archwilio Cymru o'r farn bod gan y cyngor 'Arweinyddiaeth strategol gref a grŵp cyfarwyddwyr corfforaethol newydd sy'n rhoi cyfeiriad clir i wasanaethau a staff'.

### Datblygu ein Harweinwyr

Er bod gennym arweinwyr strategol cryf, blaengar, sy'n rhoi cyfeiriad clir i'n staff a'n gwasanaethau, rydym yn datblygu prosesau, gweithdrefnau a fframwaith i fod yn sail ar gyfer "arweinyddiaeth a rheolaeth" o ran hyfforddi, datblygu a chryfhau gwydnwch.

Yn 2021/2022 nid oedd gan y Cyngor strategaeth na chynllun ar gyfer datblygu arweinyddiaeth. Er bod arweinwyr cryf, blaengar, strategol sy'n rhoi cyfeiriad clir i staff a gwasanaethau, y mae hefyd fframweithiau sy'n datblygu yn sylfaen i "arweinyddiaeth a rheolaeth" o ran datblygu hyfforddiant a chryfhau gwydnwch. Yn ystod y degawd o gyni dilewyd y gyllideb datblygu arweinyddiaeth, ynghyd â deilydd y swydd a gyflogwyd i gyflawni gweithgaredd datblygu arweinyddiaeth.

Ym mis Ionawr 2022, cadarnhaodd y cyngor ei ymrwymiad i ddatblygu ei weithlu trwy gymeradwyo creu cyllideb sylweddol wrth gefn ar gyfer Datblygu Trefniadaeth, er mwyn creu a chefnogi datblygiad y gweithlu cyfan. Mae hyn yn cynnwys datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth er mwyn creu ymdeimlad o weledigaeth, pwrpas ac ysbrydoliaeth i gyflogeion a meithrin hyder o fewn y sefydliad, gan arwain at arloesedd a gwella deilliannau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot.




[1] Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygiad o wasanaethau troseddu ieuenctid yng Nghastell-nedd Port Talbot, Mai 2022

[2] Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru, Heddlu De Cymru - Mehefin 2021

[3] Archwilio Cymru - Gweithdy Sicrwydd ac Asesu Risg, Chwefror 2022

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Arweinyddiaeth - 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' parhad...

Wrth weithredu Cynllun Gweithlu Strategol y Cyngor – Strategaeth Dyfodol Gwaith (2022 – 2027) gwnaed y cam gweithredu canlynol yn flaenoriaeth "Bydd datblygu rhaglenni corfforaethol â darpariaeth dda o adnoddau sy'n rhoi datblygiad cynhwysfawr ar bob lefel o arweinyddiaeth yn helpu i sicrhau bod arweinwyr heddiw ac yfory yn alluog, yn hyderus, yn fedrus ac yn llawn cydymdeimlad".

Ar ben hynny, darperir tystiolaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth wrth symud ymlaen trwy'r cylch arfarnu blynyddol.

Bydd y cylch hwn yn gweithredu fel 'gwiriad hinsawdd' mewnol y cyngor; mae hyn yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei amlygu trwy Gynllun Corfforaethol 2022 – 2027 sy'n cyflwyno gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r cyngor, ac mewn perthynas ag arweinyddiaeth.

Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant mewnol a gweithgaredd datblygu yn cael ei chynllunio gan y Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu.

Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant mewnol a gweithgaredd datblygu yn cael ei chynllunio gan y Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu.

Bydd creu Tîm CNPT yn ein galluogi i ddysgu oddi wrth ein gilydd a meithrin hyder o fewn y sefydliad, gan arwain at arloesedd a gwella deilliannau i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn ystod yr hunanasesiad, roedd cytundeb sylweddol y byddai mwy o ddysgu ar y cyd ar draws tîm arweinyddiaeth y cyngor o gymorth, gan alinio staff uwch â lefel o arweinyddiaeth a fyddai'n sbarduno gwelliant parhaus. Roedd hyn yn amrywio o sefydlu, deall y sefyllfa bresennol a pherfformiad y cyngor, a gwybod beth sy'n digwydd ar draws cyfarwyddiaethau i annog arloesedd.

Teimlai Rheolwyr Atebol ei fod yn hanfodol bod llwybrau datblygu gyrfa clir a chyson a chyfleoedd i symud ymlaen ar gael, a bod y disgwyliadau ar arweinwyr ac arweinwyr strategol yn cael ei fynegi'n glir, gyda diffiniad llawn o alluoedd.




***Casgliad yr Hunanasesiad: mae'r cyngor yn aeddfed, ac mae ganddo gynlluniau ar waith i symud at statws arweiniol.***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Caffael - 'Caffael a chomisiynu'

Diffinnir caffael fel y broses sy'n fodd i sefydliadau ddiwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran cynhyrchu buddion nid i'r sefydliad yn unig, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, ochr yn ochr â lleiafu'r niwed i'r amgylchedd. Dyma thema ganolog ein gwaith caffael.

Mae rheolau a pholisïau caffael yn mynd i fod yn destun newid sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, nid yn unig er mwyn bodloni newidiadau deddfwriaeth, ond hefyd i sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth gaffael newydd.




Mae'r cyngor yn ymroddedig i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian o'i wariant caffael trydydd parti – tua £205,000,000 y flwyddyn. Mae'r gwariant trydydd parti yn cynyddu, fel y mae'r ddibyniaeth ar nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael, ac mae llywodraeth leol yn dal i fod yn gomisiynydd ac yn bwrcaswr pwysig ar lefel lle a chronnol, ar draws yr holl brif gategorïau o wariant.

Mae'r cynnydd ym maint a chymhlethdod y galw, a phwysau'r farchnad ar wasanaethau, yn arbennig gofal cymdeithasol, wedi creu heriau pellach. Mae costau uwch oherwydd y cynnydd mewn chwyddiant, argyfwng y newid yn yr hinsawdd, amharu ar gadwyni cyflenwi a chyflenwyr yn methu cadw at ofynion contractiol, a'r rhyfel yn Wcráin i gyd yn bwysig o safbwynt sut mae rhaid i'r cyngor ymdrin â chaffael.

Mae gan y cyngor bolisïau clir ar waith i gynyddu gwerth trwy'r broses gaffael yn sgîl ei reolau gweithdrefn contractau ac amrywiol bolisïau a phrotocolau. Fel rhan o'i waith strategaeth tendrau, mae'n ystyried ffyrdd o sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau mae'n eu caffael.

TMae pecynnau hyfforddi ar brosesau caffael yn cael eu datblygu i swyddogion er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei wreiddio yn y gwasanaethau a gyflwynir. Ar ben hynny, mae pecynnau offer yn cael eu datblygu i roi sylw i hyn, ac yn sicrhau bod data cywir yn cael ei ddarparu wrth i ni ymgymryd â rhaglenni gwaith strategol.

Mae trefniadau yn eu lle i ymdrin â pherfformiad cyflenwyr ac mae'r cyngor yn cydnabod bod rheoli perthnasoedd a chontractau yn rhan hanfodol o berfformiad cyffredinol.

Mae systemau â lefel uchel o ddiffiniad yn eu lle i dargedu colled ariannol a thwyll, gydag agwedd ragweithiol at faterion megis trafodion afreolaidd, taliadau a ddyblygir a chredydwyr ac anfonebau ffug ar draws y gadwyn gyflenwi. Ymchwilir yn weithredol i gydgynllwynio posibl a llurgunio'r farchnad. Mae'r amodau contract yn sicrhau'r amddiffyniad cyfreithiol mwyaf posibl i'r cyngor.

Mae'r cyngor yn archwilio'r dull gorau o ymgysylltu â'r Aelodau mewn materion caffael a masnachol er mwyn sicrhau bod barn trigolion a chynrychiolwyr etholedig yn hidlo trwodd i'r prosesau caffael.

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Caffael - 'Caffael a chomisiynu' parhad...

Yn ystod yr hunanasesiad, cydnabuwyd bod gan y cyngor bolisïau clir yn eu lle i gynyddu gwerth trwy'r broses gaffael ar ffurf ei rheolau gweithdrefn ar gyfer contractau ac amrywiol bolisïau a phrotocolau.

Er bod faint o waith oedd yn cael ei roi i gaffael a chymeradwyo'r gallu i gael penderfyniadau wedi'u cadarnhau, amlygwyd bod meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau mwy o waith traws-swyddogaethol. Roedd y rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn gadarnhaol ynghylch gwaith y tîm cyfreithiol, ond byddent yn hoffi gallu cyflymu'r broses petai adnoddau'n caniatáu.

Roedd Uwch-reolwyr yn cydnabod eu bod yn ymwneud â materion caffael a masnachol yn rheolaidd, ac yn derbyn cyngor ar adeg penderfyniadau allweddol, gyda swyddogion yn rhan o brosesau caffael yn gynnar. Mae gan swyddogion comisiynu arbenigedd fanwl a dealltwriaeth o'u cronfa o gyflenwyr a'u gwariant, a gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i gomisiynu gwasanaethau y mae ar y cyngor eu hangen. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn digwydd yn ynysig oddi wrth ymgynghorwyr masnachol a chaffael mewn rhai meysydd, ond cydnabyddir bod angen dull cyngor cyfan o ymdrin â dylunio a gweithredu er mwyn gwella swyddogaethau caffael.

Mae systemau yn eu lle sy'n golygu bod modd casglu data a gwybodaeth ynghylch y costau a gafwyd, ond mae mynediad cyfyngedig at ddata diriaethol er mwyn gallu canfod themâu a meysydd gwariant. Mae pecynnau offer yn cael eu datblygu i roi sylw i hyn, gan sicrhau bod data cywir yn cael ei ddarparu wrth i ymgymryd â rhaglenni gwaith strategol.

Cydnabuwyd bod y ffocws yn dal ar gydymffurfiaeth a chymarebau cost/ansawdd safonol, ond bod arloesedd hefyd yn ystyriaeth. Mae trefniadau yn eu lle i roi sylw i berfformiad cyflenwyr, ac mae'n hanfodol bod y rheolaeth ar berthnasoedd a chontractau yn cael ei monitro, gan herio gwariant yn ôl y galw. Mae pecynnau hyfforddi ar brosesau caffael yn cael eu datblygu i swyddogion, er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant wedi'i wreiddio yn y gwasanaethau a gyflwynir.

Cydnabuwyd bod rhai meysydd y mae angen eu gwella er mwyn cyrraedd sefyllfa lle rydym ni'n sefydliad arweiniol, ond o safbwynt cydymffurfio a gweithredol, a lle mae swyddogaethau caffael yn diwallu anghenion y cyngor a chyflwyno gwasanaethau. Mae angen canolbwyntio mwy o waith ar effaith gymunedol (ystyried a deall costau byw grwpiau bregus ac anghenion gwasanaeth hirdymor a fydd yn parhau ar hyd 2022/2023 ac ymlaen).




***Casgliad yr Hunanasesiad: mae'r cyngor yn aeddfed, gyda chryfderau ym meysydd proses, cydymffurfio â deddfwriaeth, a chyflawni canlyniadau da i'r cyngor.***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Rheoli Risg - 'Rheoli risgiau'n effeithiol'

Datblygwyd Polisi Rheoli Risg y cyngor yn 2015 ac mae'n disgrifio dull strwythuredig, sydd â ffocws, o reoli risgiau a gwneud yn fawr o gyfleoedd ar lefel gorfforaethol. Mae'r polisi'n berthnasol i holl weithgareddau'r cyngor ac yn adeiladu ar arferion rheoli risg gweithredol da sydd eisoes yn bodoli o fewn y cyngor, ac yn cydweddu â'r systemau llywodraethiant eraill, sy'n ffurfio systemau rheolaeth mewnol y cyngor.

Cydnabyddir bod ffocws rheoli risg yn troi'n helaeth o amgylch ymateb y cyngor i bandemig Covid-19 yn ystod 2021/2022, gan sicrhau bod y cyngor yn gallu ymateb i'r pandemig mewn modd strwythuredig a phwyllog.




TRoedd hyn yn golygu bod llai o ffocws ar y dull gweithredu (fframwaith) a gyflwynwyd yn y polisi uchod, yn arbennig cofnodi ac adrodd am risgiau gweithrediadol a strategol ar lefel swyddogion, a gorolwg aelodau ar y risgiau hynny.

Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod mai rheoli risg yw'r broses a ddilynir i reoli lefel y risg wrth wneud penderfyniadau, mewn swyddogaethau a gweithgareddau gwasanaethau a allai effeithio ar gyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r cyngor, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027.

Mae hefyd yn cydnabod bod system effeithiol o lywodraethiant corfforaethol yn arwain at reolaeth dda, perfformiad da, stiwardiaeth dda ar arian cyhoeddus, ymgysylltu da â'r cyhoedd, ac yn pen draw mae'n hanfodol i'r cyngor ddangos ei fod yn gweithredu er lles pennaf y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Er bod adferiad yn dal yn ffocws i'r cyngor, mae nifer o heriau newydd yn wynebu'r cyngor (e.e. rhai ariannol (y gyllideb), economaidd (argyfwng costau byw/ynni)), ac mae'n hanfodol bod gan y cyngor bolisi cadarn ar waith i reoli risgiau er mwyn cyflwyno'r buddion canlynol yn yr amgylchedd cythryblus, di-drefn y caiff y cyngor ei hun ynddo yn awr:

- Amddiffyn enw da ac asedau ac arddangos gallu i fod yn agored ac yn atebol (llywodraethiant a rheolaeth fewnol da)
- Rhoi rhybudd cynnar ynghylch materion allweddol/sy'n dod i'r amlwg, fel bod modd gwneud penderfyniadau prydlon, tryloyw ac ymyrryd ar lefelau priodol, gan arwain at fwy o reolaeth ar faterion ariannol a'r gyllideb
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r cyngor
- Cyfrannu at adeiladu gweithlu sy'n ddeallus ynghylch risgiau ac amgylchedd sy'n caniatáu ar gyfer arloesedd ac agwedd gyfrifol at gymryd risgiau

Yn ystod 2022/2023, cychwynnwyd gwaith i ddiwygio Polisi 2015. Bydd y Polisi diwygiedig yn dangos ymrwymiad y Cyngor i reoli risg er mwyn gwneud y canlynol:

- Cefnogi cyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r cyngor;
- Sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni;
- Diogelu'r holl randdeiliaid y mae gan y cyngor ddyletswydd gofal tuag atynt;
- Gwarchod asedau ffisegol a gwybodaeth a nodi a rheoli rhwymedigaethau posibl;
- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol ar arian cyhoeddus, defnydd a dosbarthiad effeithlon o adnoddau, a sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus;
- Dysgu o fygythiadau, cyfleoedd, llwyddiannau a methiannau blaenorol;
- Cadw, hybu a diogelu enw da'r cyngor; ac
- Adeiladu gweithlu sydd ag arloesedd ac agwedd gyfrifol at gymryd risgiau yn rhan o'i ddiwylliant.

***Casgliad yr Hunanasesiad: mae'r cyngor yn aeddfed ac mae ganddo gynlluniau ar waith i symud i statws arweiniol.***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Digidol, Data a Thechnoleg


Mae'r gwaelodlin annibynnol diweddar ar gyfer gwasanaethau digidol wedi nodi nifer o feysydd penodol i'w gwella, gan gynnwys Seilwaith Digidol; Cyflwyno Cymwysiadau; Data; Seiberddiogelwch; Gallu a Chapasiti Digidol; a sgiliau'r gweithlu ehangach.

Mae tîm y Gwasanaethau Digidol yn parhau i roi cefnogaeth adweithiol helaeth ar draws meysydd gwasanaeth y cyngor, ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae colli staff allweddol a diffyg cynllunio olyniaeth wedi rhoi'r gwasanaeth o dan fwy o bwysau, ynghyd ag ôl-groniad cynyddol o waith cynnal a chadw a datblygu y mae angen ei gyflawni ar frys.

During the self-assessment, cafodd y tîm Data sydd newydd ei ffurfio hefyd ei gydnabod fel cam i'r cyfeiriad cywir. Bydd y tîm newydd yn cefnogi'r cyngor cyfan i wneud defnydd gwell o'r setiau data helaeth sydd ar gael i lywio dylunio a chyflwyno gwasanaeth. Mae meysydd megis Gwybodaeth i Reolwyr, datblygu Strategaeth Ddeallusrwydd ar gyfer Data a Busnes, safoni pensaernïaeth data, a defnyddio dadansoddeg data i gefnogi cyflwyno gwasanaeth, i gyd o fewn eu cwmpas.

Mae angen i'r Tîm Data ddeall anghenion y gwasanaeth a'r gymuned, ac o ganlyniad gefnogi'r cyngor i sicrhau nad oes seilos data yn bodoli oddi mewn iddo. Mae'n amlwg bod cyfyngiadau ar alinio'r data a gesglir. Ceir adroddiadau ad-hoc/allforio â llaw o gymwysiadau, ac nid yw'r data ar hyn o bryd yn cael ei gysylltu i ffurfio darlun cyfannol ar draws taith y cwsmer. Mae llawer o ddyblygu data neu gopïau lluosog yn cael eu cadw gan adrannau ar draws y cyngor. Mae angen adolygu'r cyfyngiadau GDPR i sicrhau bod modd cadw data ar y cyd a'i ddefnyddio at ddibenion lluosog er lles pennaf y defnyddwyr gwasanaeth/trigolion.

O ganlyniad i adolygiad annibynnol o weithrediadau digidol, bydd Model Gweithredu Targed (TOM) newydd arloesol yn trawsffurfio gweithrediad gwasanaethau digidol ar draws y cyngor, ac yn cefnogi rhoi'r Cynllun Corfforaethol ar waith a thrawsffurfio profiad pawb o'r trigolion, busnesau, staff ac ymwelwyr.




Mae angen cyfathrebu sut mabwysiadir TOM yn effeithiol gyda'r staff, gan roi manylion digonol am y broses.




***Yn ystod yr hunanasesiad, roedd canmoliaeth sylweddol i'r tîm TG a Digidol, a welir fel rhai***

*"parod i helpu a gwerthfawr, a bellach yn dîm sy'n gweithredu â hyder rhan o'r cyngor a werthfawrogir".*

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Digidol, Data a Thechnoleg parhad...

Y rhagdybiaeth ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2022-2027, sydd wedi'i wreiddio yn y rhaglen o ddatblygu trefniadol a fydd yn meithrin capasiti a gallu'r cyngor dros gyfnod o 3-5 mlynedd, yw dod yn 'Alluogydd Digidol' er mwyn cymryd camau clyfar a chysylltiedig i wella fel cyngor ac fel lle.




Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r cyfleoedd strategol i wella'r gwasanaeth a gyflwynir yng nghyswllt Digidol, Data a Thechnoleg a chaniatáu i'r cyngor, a'r fwrdeistref sirol gyfan, ddod yn glyfar a chysylltiedig

Mae cyfeiriad teithio clir ar lefel weithredol i symud y dull hwn ymlaen. Fodd bynnag, bydd yn galw am newid yn y cyngor cyfan, ac ni ellir ei wneud yn ynysig gan y gwasanaethau digidol, gan y bydd gofyn sicrhau arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ariannol ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau. Bu newid amlwg yn bendant yn y gefnogaeth a'r parodrwydd i ddatblygu 'atebion digidol' ar gyfer meysydd gwasanaeth, er bod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod ymrwymiad gwirioneddol i'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer meysydd gwasanaeth.

Dyma lle mae angen dull gweithredu cyfannol i fanteisio ar wybodaeth a phrofiad o wasanaethau er mwyn datblygu atebion addas at y diben.

At ei gilydd, mae timau'n gyffredinol gyflym wrth ymateb i faterion, ond mae adnoddau'n effeithio ar amseru, ac mae blaenoriaethau'n newid.

Mae'n hanfodol bod cynlluniau digidol yn cael eu dylunio ac yn eu lle, gyda llywodraethiant clir, ac wedi'u halinio ag amcanion strategol y Cynllun Corfforaethol. Nid mater o fwy o dechnoleg, mwy o blatfformau, a mwy o atebion i broblemau rydyn ni'n meddwl sy'n bodoli yw hyn, ond dylunio sy'n wir yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan sicrhau bod ein trigolion, ein busnesau a'n hymwelwyr yn ganolog wrth gyflwyno gwasanaeth.

Mae nifer o enghreifftiau profedig lle mae'r cyngor wedi defnyddio Awtomeiddio Proses Robotig (RPA) i wella gwasanaeth a lleihau'r gost mewn meysydd gwasanaeth sy'n cynnwys Adnoddau Dynol, Pridiannau Tir a Chyllid. Rydym wrthi'n cynllunio i ymgysylltu â meysydd gwasanaeth ehangach er mwyn archwilio cyfleoedd ychwanegol, gwasanaethau lle ceir gwelliannau mesuradwy a chostau is fesul uned.

Lle rhoddwyd RPA ar waith, mae gwasanaethau wedi gwella a'r gost wedi gostwng (e.e. gostyngiad o 95% - Ceisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol a gostyngiad o 91% - Taliadau Cyflymach).

***Casgliad yr Hunanasesiad: Mae sefyllfa bresennol dull y cyngor o ymdrin â gwaith Digidol, Data a Thechnoleg yn symud ymlaen o fod yn datblygu i fod yn aeddfed.***

# Crynodeb o’r asesiad lefel uchel

## Cynllunio Ariannol 'Rheoli gwariant'

Mae’r cyngor yn deall yr adnoddau sy’n ofynnol i gyflwyno gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ar lefel gweithgaredd/canolfan gost. Yn ystod 2021/2022 cynhaliwyd ymarferiad i ddangos yr union weithgaredd oedd yn cael ei gyflwyno ar lefel gwasanaeth. Nod yr ymarferiad hwn oedd mesur nid yn unig y mewnbwn corfforol h.y. niferoedd y staff, ond hefyd yr allbynnau, h.y. nifer y casgliadau gwastraff etc.

Mae’r cyngor mewn sefyllfa gref o gymharu â rhai awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru. I ddarparu tystiolaeth o hyn mae’r cyngor wedi dechrau’r broses o ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), a pharatowyd amrywiol fodelau sy’n delio â gwahanol sefyllfaoedd ar gyfer nifer o sbardunau allweddol costau ac incwm. Pan gaiff ei gymeradwyo, bydd y cynllun hwn yn manylu ar nifer o ymyriadau strategol i ailddylunio sut mae rhai gwasanaethau’n cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, mae’r ymyriadau hyn yn cael eu trosi’n gynlluniau mwy manwl gydag amcanion penodol, gan gynnwys atebolrwydd am gyflawni, yn amodol ar drefniadau llywodraethiant a mannau gwirio priodol.

Mae gan y cyngor broses sefydledig ar gyfer monitro amrywiadau yn fisol trwy ei broses o fonitro’r gyllideb. Mae’r amrywiadau hyn nid yn unig yn canolbwyntio ar amrywiadau ariannol, ond yn ceisio deall y gweithgaredd sy’n sbarduno unrhyw amrywiadau

Mae natur trefniadau llywodraethiant y cyngor yn golygu bod Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn gyfrifol am gyflwyno’u gwasanaethau o fewn amlen ariannol gyffredinol y cyfeirir ati fel eu ‘terfyn ariannol’.

Lle bo modd, bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn gweithredu i gyfyngu ar achosion unrhyw amrywiadau; os nad yw hynny’n bosibl, byddant yn chwilio am gamau i’w cymryd mewn mannau eraill i gyfyngu ar y gwariant cyffredinol o fewn y terfyn ariannol.

Wrth symud ymlaen a chymryd i ystyriaeth bwysau ariannol ar lefel fyd-eang mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng cyflwyno gwasanaethau statudol,



cynllunio ar gyfer y tymor hwy a hefyd bod yn arloesol a rhoi cynnig ar bethau newydd i greu gwelliannau. Mae gan swyddogion cyllid ac uwch-reolwyr ddealltwriaeth dda o anghenion y Gyfarwyddiaeth ac agwedd bragmataidd atynt, ac mae gofyn eu bod yn mynd ati i bennu cyllideb mewn modd cyfannol, gan gydnabod yr heriau.

Bydd y dulliau gweithredu hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o awtomeiddio a roboteg a nifer o adolygiadau gwasanaeth mewn perthynas â llety a thrafnidiaeth. Bydd y cynllun ariannol tymor canolig yn hanfodol wrth bennu pa welliannau sy’n bosibl a ble, a dyma fydd y sylfaen ar gyfer pob dewis arall. Mae rheolwyr gwasanaeth unigol yn ymwybodol o’r galwadau yn eu meysydd eu hunain, ac maent yn gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y cwsmeriaid yn y modd mwyaf effeithlon.

Yn hanesyddol mae wedi bod yn eithriadol o anodd cymharu costau â chynghorau eraill ar sail debyg. Mae gwahaniaethau o ran trefniadau cyfrifyddu wedi golygu bod ymarferion blaenorol wedi gorfod canolbwyntio ar faterion megis dyraniad gorbenion, yn hytrach nag unrhyw gymariaethau ystyrlon. Mae amrywiol gyfleoedd i feincnodi wedi mynd a dod gyda threigl y blynyddoedd, yn bennaf oherwydd yr anawsterau a nodwyd. Byddai’n fuddiol cael hyd i dir cyffredin, fel bod modd meincnodi.

***Casgliad yr Hunanasesiad: Yr asesiad cyffredinol, ac ochr yn ochr ag argymhellion Archwilio Cymru, yw bod y sefyllfa’n symud o un sy’n datblygu i un aeddfed.***

# Crynodeb o'r asesiad lefel uchel

## Cynllunio Ariannol 'Rheoli incwm'




Derbynnir bod gwaith y cyngor yn y maes hwn wedi'i ddatblygu'n annigonol, ac y bydd angen sylw sylweddol ar hynny yn y dyfodol rhagweladwy. Ar hyn o bryd mae gan y cyngor weithgor cynhyrchu incwm a Chydlynydd Masnachol, er i waith yn y maes hwn symud o'r brig yn ystod pandemig Covid oherwydd y gefnogaeth oedd yn angenrheidiol yn y Tîm Cyfathrebu.

Bu'r mentrau hyd yma ar raddfa fach, ac o ganlyniad ni fu angen llawer o reoli risg ar eu cyfer.

Yn ystod yr hunanasesiad, gwelid mwyafu cynhyrchu incwm er budd y cyngor, trigolion, busnesau a'r amgylchedd fel maes a allai greu canlyniadau yn y tymor canolig, a theimlid y dylai hon fod yn rôl benodol, yn hytrach nag ychwanegiad at rôl sydd eisoes yn bodoli.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar strategaeth fasnachol, gan roi blaenoriaeth i wasanaethau lle mae cyfleoedd marchnad sefydledig yn bodoli.

Mae buddsoddi yn y capasiti i fwyafu incwm grant allanol yn allweddol. Ar ben hynny, mae angen ystyried a yw'r ffioedd a'r taliadau yn gymesur â chost gwasanaethau a gweithgaredd rheoliadol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gysylltu â'r deilliannau strategol y mae'r cyngor yn dymuno eu cyflawni.

***Casgliad yr Hunanasesiad: Yr asesiad cyffredinol yw bod hyn yn datblygu, ond bod cynlluniau ar waith i symud i'r lefel aeddfed.***



# Diweddglo

Er mwyn cwblhau'r hunanasesiad, mae'r cyngor wedi gweithio ar draws saith maes gweithgaredd craidd i asesu a yw'n ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol ac yn defnyddio'i adnoddau yn ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ar sail yr asesiadau mae'r gyfradd gyffredinol fel cyngor ar lefel Aeddfed, gyda chamau ar waith i symud i Arweiniol.

Er bod y cyngor at ei gilydd yn ymarfer ei swyddogaethau ac yn defnyddio'i adnoddau'n aeddfed, mae'r hunanasesiad wedi rhoi sicrwydd mai'r cyfleoedd i wella a nodwyd yn ystod 2021/2022 oedd y pethau cywir i fod yn canolbwyntio arnyn nhw yn ystod 2022/2023 ac ymlaen ar draws y 7 gweithgaredd craidd, a bod hynny'n dal yn wir.

| GWEITHGAREDD CRAIDD | DATBLYGU | AEDDFED | ARWEINIOL |
|---|---|---|---|
| Cynllunio Corfforaethol (Rôl y Cyngor) | | ● ➔ | |
| Cynllunio'r Gweithlu (Cael y Gorau o'r Gweithlu) | | ● ➔ | |
| Arweinyddiaeth (Arweinyddiaeth a Rheolaeth) | | ● ➔ | |
| Caffael (Caffael a Chomisiynu) | | ● ➔ | |
| Rheoli Risg (Rheoli Risg Effeithiol) | | ● ➔ | |
| Digidol, Data a Thechnoleg | ● ➔ | | |
| Cynllunio Ariannol - Rheoli Gwariant / Incwm | ● ➔ | | |

# Diweddglo parhad...

O ran asesu a oes gan y cyngor lywodraethiant effeithiol yn ei le argyfer sicrhau swyddogaethau ac adnoddau – nodwyd nifer o welliannau yn dilyn yr hunanasesiad ar effeithiolrwydd system y cyngor o reolaeth fewnol oedd yn ei lle ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2022 (fel rhan o ddatblygiad AGS y cyngor ar gyfer 2021/2022.

Nid yw'r hunanasesiad wedi nodi unrhyw feysydd ychwanegol i'w gwella. Mae'r cynllun gweithredu ar dudalennau 29-35 yn cynnwys camau gweithredu i ymdrin â'r meysydd gwelliant y cyfeirir atynt uchod.  Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan Grŵp Llywodraethu Corfforaethol y cyngor (grŵp o Uwch-Swyddogion ar draws y cyngor sydd â chyfrifoldebau cysylltiedig â llywodraethiant).

Mae'n hanfodol bod dull y cyngor o gynnal hunanasesiadau yn y dyfodol yn parhau i esblygu trwy gymryd i ystyriaeth ddysgu ac arfer gorau parhaus o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru. Er enghraifft, mae'r cyngor yn ymwybodol bod yr asesiad o asedau ar gyfer yr hunanasesiad hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddigidol a thechnoleg. Bydd hunanasesiad 2022/23 o asedau yn cael ei ehangu i gynnwys asedau a chyfleusterau ffisegol.

O ran arweinyddiaeth, roedd yr hunanasesiad hwn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth o bersbectif swyddog, ond bydd hynny'n cael ei ehangu i ystyried effeithiolrwydd y berthynas rhwng yr arweinwyr gwleidyddol ac uwch-swyddogion yn y cyngor. Bydd hyn yn sicrhau datblygiad parhaus diwylliant lle gall y cyngor fynd ati'n barhaus i herio ffyrdd cyfredol o weithio a herio sut mae'r cyngor yn gweithredu, er mwyn sicrhau gwelliant i'r dyfodol.






# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT

CWESTIYNAU 1 A 2 – YMARFER SWYDDOGAETHAU'N EFFEITHIOL A DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDIWASTRAFF, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL? (I BA RADDAU RYDYN NI'N LLWYDDO A SUT RYDYN NI'N GWYBOD)

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Cynllunio'r Gweithlu ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| SA1 | Sefydlu Tîm Dyfodol Gwaith | Awst 2022 | Wedi cwblhau – Hysbysebwyd a recriwtiwyd adnoddau ychwanegol i gyd-fynd â'r gwasanaeth Datblygu Trefniadaeth a Phobl, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglen waith uchelgeisiol. |
| SA2 | Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithlu Strategol y cyngor ar gyfer 2022-2027: Strategaeth Dyfodol Gwaith | Hydref 2022 | Cwblhawyd – Cynllun Gweithlu Strategol 2022-2027: cafodd Strategaeth Dyfodol Gwaith ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Tachwedd 2022. |
| SA3 | Sefydlu Tasglu Recriwtio i yrru strategaeth recriwtio'r cyngor | Medi 2023 | Sefydlwyd tasglu oedd yn cyfuno rhanddeiliaid mewnol allweddol ac asiantaethau partner ym mis Tachwedd 2021, ac mae'n cwrdd bob chwarter, gyda phartneriaid allanol. Mae nifer o gamau ar waith gyda'r nod o lenwi swyddi gwag ar draws y cyngor â phobl sydd â chymwysterau a phrofiad addas, ac i wneud hynny'n gyflym; ac i ddatblygu camau gweithredu mwy hirdymor i gefnogi gweithgarwch cynllunio olyniaeth ar draws y cyngor. Darparwyd adnoddau ychwanegol i'r tîm AD i gefnogi'r gweithgarwch hwn am gyfnod o 18 mis. |
| SA4 | Adolygu dyluniad trefniadol y cyngor er mwyn galluogi'r cyngor i wneud y gwaith angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau'r cyngor yn effeithiol ac yn effeithlon, ochr yn ochr â darparu profiad o safon uchel i gwsmeriaid a chyflogeion. | Mawrth 2023 | Datblygwyd dull gweithredu cyfnod un a'i roi ar waith ym mis Medi 2022, gan adolygu gweithgareddau ar draws yr uwch dîm er mwyn gwella'r synergedd rhwng gwasanaethau a sicrhau bod capasiti uwch-reolwyr y 'maint cywir'. Cymeradwywyd cynnig graddfa gyflog Rheolwr Strategol ym mis Hydref 2022 i roi sylw i faterion capasiti pellach, yn ogystal â chynllunio olyniaeth a chadw staff ar y lefel hon. Mae fframwaith i roi hyn ar waith yn cael ei ddatblygu, a bydd ar gael ym mis Ionawr 2023, fel rhan o Gyfnod 2 o'r adolygiad trefniadaeth. |

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Cynllunio'r Gweithlu ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth / Parhaus....** | | | |
| SA5 | Datblygu dull gweithredu strategol o ran sut rydym ni'n datblygu Prif Swyddogion ac uwch-arweinyddion, gan eu galluogi i arddangos y galluoedd allweddol sy'n ofynnol ganddynt yn eu rôl. | Mawrth 2024 | Mae gwaith eisoes yn digwydd i sicrhau eglurder ynghylch ein disgwyliadau ar gyfer ein harweinyddion a'n rheolwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot – datblygu templed Disgrifiad Swydd a galluoedd ar gyfer Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr Strategol / Rheolwr Atebol. Mae bwriad i gynnal trafodaeth wedi'i hwyluso gyda'r uwch dîm ym mis Mawrth 2023: 'Beth mae arweinyddiaeth yn ei olygu yn CNPT?' Cynhelir gwiriad hinsawdd o 'arweinyddiaeth' yn CNPT yn 2023, er mwyn darparu asesiad gwaelodlin o effaith arweinyddiaeth. Mae rhaglen Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn cael ei rhychwantu ar gyfer ei chyflwyno i garfan gyntaf erbyn mis Mawrth 2024. Mae cymhwyster Hyfforddi a Mentora yn cael ei ddarparu i reolwyr er mwyn sefydlu Rhwydwaith o Hyfforddwyr Ymarferol ar draws y cyngor. |
| SA6 | Datblygu Strategaeth Datblygu Trefniadaeth a Hyfforddi a Datblygu sy'n cefnogi cyflawni'r cynllun corfforaethol | Parhaus | Bydd datblygiad y strategaeth hon yn llifo o'r trafodaethau a amlinellwyd uchod. |
| **Caffael** | | | |
| SA7 | Ailstrwythuro'r Tîm Caffael | Rhagfyr 2022 | Mae recriwtio wedi bod yn parhau er mwyn ymdrin â gofynion. Gwnaed penodiadau ac mae'r broses o ôl-lenwi swyddi gwag yn parhau, fydd yn golygu bod modd ailddosbarthu gwaith. |
| SA8 | Datblygu Strategaeth Gaffael CNPT | Parhaus | Mae camau ar waith i ddatblygu Strategaeth Gaffael i Gastell-nedd Port Talbot, gyda'r nod o egluro sut mae'r cyngor yn bwriadu gwneud ei waith caffael mewn modd cymdeithasol gyfrifol, a chyflawni'r amcanion y mae wedi'u pennu. Diben y strategaeth hon fydd nodi sut rydym ni'n newid caffael o fewn y cyngor, er mwyn gwella ein trefniadau rheoli contractau a chyflwyno'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni gwell deilliannau i'n cymunedau. Datblygir y strategaeth gyda gwerthfawrogiad llawn o'r fframwaith rheoliadol cymhleth y mae caffael yn gweithredu oddi mewn iddo. Bydd hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes sy'n cynnwys lefel uchel o risgiau – a allai gael effeithiau sylweddol ar gyflwyno gwasanaethau, rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth gyfreithiol, yn ogystal ag enw da'r Cygnor yn gyffredinol. |

# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT parhad...

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Caffael** | | | |
| SA9 | Adolygu gwariant fesul categori | Parhaus | Mae angen i ni fedru deall ar beth rydyn ni'n gwario'n harian a ble gallai fod cyfleoedd i sbarduno gwelliant. Er enghraifft, mae angen cyflawni targedau carbon sero net a hefyd ddileu'r risg i sefydlogrwydd ariannol y cyngor, sydd bellach yn cael ei herio gan y cynnydd sylweddol yng nghostau ynni a chwyddiant ehangach. Mae dadansoddiad strategol ar waith i herio pam rydyn ni'n gwario'r arian yma yn y lle cyntaf, yn ogystal â chanolbwyntio ar sut gallwn ni yrru gwell gwerth am arian a chyfrannu at gyflawni ein cynllun corfforaethol.<br>Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y misoedd sy'n dod, er mwyn symud tuag at ddull mwy strategol o ymdrin â gwaith caffael y cyngor, wedi'i seilio ar bolisi a dadansoddiad o ddata. Yn y cyfamser rhoddwyd peth ystyriaeth uniongyrchol i gamau y gellid eu cymryd i sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwreiddio ar draws y Cyngor bellach, gyda'r nod o leihau gwariant a gwella arbedion effeithlonrwydd wrth gomisiynu ac mewn gweithgareddau caffael. |
| **Digidol, Data a Thechnoleg** | | | |
| SA10 | Llywodraethiant Digidol – Datblygu fframwaith cadarn ar gyfer sefydlu atebolrwydd clir; rolau; gwneud penderfyniadau; ac awdurdod rheoli newid a risg ar gyfer ein holl benderfyniadau digidol. Byddwn ni'n sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol, fel bod y bobl gywir yn gwneud y penderfyniadau cywir, ar yr adeg gywir, ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael. | Parhaus | Gweithgareddau sydd ar waith:<br>• Datblygu Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer CNPT, gan adeiladu ar "Clyfar a Chysylltiedig"<br>• Rhychwantu'r Bwrdd Trawsffurfio Digidol a'i roi ar waith<br>• Darparu gwaelodlin a rhoi blaengynllun ariannol ar waith, gan gynnwys Blwyddyn Ariannol 23/24<br>• Camau gweithredu o fewn y Strategaeth Seiberddiogelwch - Diogelwch a chydymffurfiaeth – Dadansoddiad o'r bylchau gydag Archwilio Cymru – Dysgu o Seiber Ymosodiadau<br>• Datblygu strategaeth ar gyfer y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Risg, gan gynnwys creu bwrdd Llywodraethu a Risg<br>• Adolygiad o'r gwaith dosbarthu a chadw data<br>• Adolygiad o'r trefniadau IAO / IAM – yn gysylltiedig â diweddaru IAR<br>• Adolygu risgiau gwasanaeth a strategol ar draws yr Is-adran<br>• Proses cylch oes rheoli asedau, yn ogystal â rhoi trefn ar ôl-groniad y seilwaith etifeddiaeth<br><br>Gweithgareddau a gwblhawyd:<br>• Datblygu a gwreiddio Safonau Gwasanaeth Digidol CNPT a'r Côd Ymarfer Technoleg ar draws pob tîm<br>• Datblygu un llinell o weithgareddau DDaT, sy'n cael blaenoriaeth, gyda phob tîm bellach yn recordio gwaith heblaw BAU yn agored ar MS Planner |

# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT parhad...

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Digidol, Data a Thechnoleg** | | | |
| SA11 | Gweithlu Digidol – Datblygu a thyfu'r sgiliau digidol o fewn y Gwasanaethau Digidol ac ar draws y cyngor ehangach er mwyn cyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a busnes. | Parhaus | Gweithgareddau sy'n parhau:<br>• Mae'r recriwtio'n parhau – penodwyd 14, ac mae 18 o swyddi i'w llenwi<br>• Cynnal dadansoddiad llawn o'r bwlch sgiliau ar draws pob aelod o'r tîm, mewn cysylltiad â'r cynllun gwaith, gan nodi anghenion hyfforddi yn ôl y galw, mewn perthynas ag arfarniadau staff<br>• ASau yn adolygu'r trefniadau cynllunio olyniaeth wedi'r hyfforddiant – yn defnyddio'r pecyn offer cynllunio olyniaeth<br>• Datblygu Swyddogaeth Cleient Deallus newydd a'i rhoi ar waith ar draws cyfarwyddiaethau<br>• Cyflwyno timau newydd amlddisgyblaeth sy'n cylchdroi ar draws y meysydd busnes<br>• Gwreiddio cyflawni ar sail safonau, gan gynnwys safonau ITIL, a gwneud cynnydd gydag arweinydd y diwydiant i ddylunio prosesau<br>• Mabwysiadu dull gweithredu ystwyth, a arweinir gan ddyluniad<br><br>Gweithgareddau a gwblhawyd:<br>• Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Digidol yn llawn, gan alinio â'r Fframwaith DDaT – cymathu'r holl staff presennol i mewn i'r strwythur newydd<br><br>Hefyd cysylltu â llif gwaith ehangach Datblygu Trefniadaeth Pobl:<br>• Gyrru newid diwylliant o amgylch 'trawsffurfio digidol', gydag arweinyddiaeth gref ar draws yr holl haenau rheolaeth<br>• Arddangos gwerth DDaT wrth ddylunio gwasanaeth – e.g. manteision Dylunio Defnyddiwr-Ganolog, sut dylai data lywio egwyddorion dylunio gwasanaeth<br>• Sicrhau bod Uwch-Arweinyddion yn deall beth sy'n ofynnol i gefnogi'r agenda ddigidol<br>• Nodi'r camau nesaf i gefnogi trawsffurfio'r gwasanaeth – e.e. rhaglenni amnewid Flare / Gofal Cymdeithasol<br>• Derbyn a gwreiddio Safonau Gwasanaeth Digidol CNPT a'r Côd Ymarfer Technoleg |
| SA12 | Data – Defnyddio a rhannu data a thystiolaeth i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i ddinasyddion a busnesau. | Parhaus | Gweithgareddau sydd ar waith:<br>• Cysylltiad â'r gweithlu – dibyniaeth ar recriwtio<br>• Nodi, datblygu a gweithredu llwyfannau data a fydd yn caniatáu defnydd trawsffurfiannol o ddata, gan gynnwys Dysgu Peiriant a Deallusrwydd Artiffisial (AI), gan agor dadansoddeg ragfynegol ddyfnach<br>• Tracio gwybodaeth reoli allweddol a DPAion sy'n cael eu gyrru gan ddata yn unol ag amcanion busnes a blaenoriaethau<br>• Datblygu gweithgor data i lywio blaenoriaethau ar draws y cyngor ar gyfer glanhau data a rheoli a defnyddio data yn barhaus<br>• Sicrhau bod data yn rhan greiddiol o'r penderfyniadau strategol a wneir yng nghyswllt rhaglenni gwaith newydd<br>• Sicrhau bod modelu data cymhleth (cysyniadol, rhesymegol, ffisegol) yn cyrraedd safon uchel, a bod modd ei ddefnyddio i ganfod cyfleoedd posibl, gan alluogi a hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau |

# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT parhad...

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Digidol, Data a Thechnoleg** | | | |
| SA12 / cont | Data – Defnyddio a rhannu data a thystiolaeth i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i ddinasyddion a busnesau. | Parhaus | Gweithgareddau sydd ar waith:<br>• Datblygu dulliau o grynhoi a chyflwyno setiau data a chasgliadau hynod gymhleth yn y fformat mwyaf priodol i ddefnyddwyr<br>• Trefnu hyfforddiant a mewnbwn ar draws timau i gynorthwyo rheolwyr wrth ddadansoddi data yn eu meysydd eu hunain a defnyddio dadansoddeg i fonitro defnydd o adroddiadau ar draws y cyngor<br>• Llifoedd gwaith gyda Microsoft i archwilio datblygu 'data-fydysawd' gyda stac cymhwyso CRM i wella cydlyniant a phrofiad y defnyddiwr<br>• Strategaeth Data a BI<br>• Adolygiad Pensaernïaeth Data<br>• Dull o ymdrin â dadansoddeg data – meithrin capasiti ar draws y sefydliad<br><br>Gweithgareddau a gwblhawyd:<br>• Cysylltiad â'r gweithlu – Pennaeth Data wedi'i recriwtio ac wedi cychwyn yn y swydd |
| **Cyfathrebu / Ymgynghori / Ymgysylltu** | | | |
| SA13 | Datblygu Fframwaith Strategol ar gyfer Cyfathrebu a Marchnata. Bydd y fframwaith hwn yn addasu tôn, sianeli a ffurfiau cyfathrebu er mwyn ategu gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r cyngor. Bydd y fframwaith hefyd yn cynnwys egwyddorion arfer marchnata a chyfathrebu da. | Mawrth 2023 | Mae gweithgor ar draws y cyfarwyddiaethau yn datblygu'r Fframwaith. Hyd yma mae'r cynnydd yn cynnwys datblygu cyfres o Delerau (gan gynnwys strategaethau cyffredinol i'w cyflawni). |
| SA14 | Datblygu Strategaeth Ymgysylltu gadarn ac effeithiol (yn fewnol ac yn allanol) | Mawrth 2023 | Mae adolygiad o'r strategaeth ymgysylltu bresennol ar waith ar hyn o bryd, gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd â'r Fframwaith Strategol newydd ar gyfer Cyfathrebu a Marchnata, a hefyd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. |

# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT parhad...

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu / Ymgynghori / Ymgysylltu** | | | |
| SA15 | Datblygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n gadarn ac yn effeithiol | Rhagfyr 2022 | Cynhyrchwyd Strategaeth ddrafft Cyfranogiad y Cyhoedd ar y cyd â Chymuned o Ymarfer y Cyngor (Ymwneud ac Ymgysylltu), er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau, nodau ac amcanion, pennu protocolau, nodi adnoddau a mecanweithiau gwerthuso. Mae'r drafft yn destun ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos (5 Rhagfyr 2022 – 26 Chwefror 2023), ac wedi hynny bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w fabwysiadu yn gynnar yn 2023. |
| SA16 | Datblygu Strategaeth newydd ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chyflogeion/yn Fewnol | Mawrth 2023 | Mae'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chyflogeion/yn Fewnol yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r Fframwaith Strategol ar gyfer Cyfathrebu a Marchnata a Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, ac mewn modd sy'n eu hadlewyrchu ac yn cydweddu â nhw. |
| **CWESTIWN 3 – SICRHAU BOD LLYWODRAETHIANT YN EFFEITHIOL AR GYFER SICRHAU SWYDDOGAETHAU AC ADNODDAU (BETH A SUT GALLWN NI WELLA)** | | | |
| SA17 | Cwblhau'r adolygiad o Gyfarwyddiadau Cyfrifyddu | Mawrth 2023 | Mae'r adolygiad bron wedi cael ei gwblhau. Adolygwyd 13 cyfres o Gyfarwyddiadau Cyfrifyddu, ac mae'r 3 arall i gael eu cwblhau yn y misoedd sy'n dod. |
| SA18 | Datblygu a gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad Corffaethol diwygiedig sy'n cyflawni'r dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Mawrth 2023 | Mae gwaith yn parhau i roi Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol diwygiedig ar waith. Mae Hunanasesiad Corfforaethol cyntaf y Cyngor (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf) yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Chwefror 2023. Mae 100% (86 o 86) o'r SRPs yr oedd gofyn eu cwblhau gan Reolwyr Atebol ar gyfer 2022/2023 wedi cael eu cwblhau ac mae'n cynnwys y gofyniad i ymgymryd â hunanasesiad ar lefel y gwasanaeth. |

# CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLIANT parhad...

| Rhif | DISGRIFIAD O'R CAM GWEITHREDU | AMSERLEN - CYFLAWNI ERBYN | CYNNYDD HYD YMA |
|---|---|---|---|
| CWESTIWN 3 – SICRHAU BOD LLYWODRAETHIANT YN EFFEITHIOL AR GYFER SICRHAU SWYDDOGAETHAU AC ADNODDAU (BETH A SUT GALLWN NI WELLA) | | | |
| SA19 | Cwblhau'r adolygiad o Bolisi Rheoli Risg y Cyngor a sicrhau bod Cofrestr Risgiau'r Cyngor yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. | Mawrth 2023 | Mae gwaith yn parhau i ailddrafftio Polisi Rheoli Risgiau'r Cyngor, a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2023. Mae atodlen risgiau strategol y cyngor wedi cael ei diwygio, a chyflwynir adroddiad arni i'r Cabinet yn gynnar yn y flwyddyn newydd. |
| SA20 | Datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. | Mawrth 2023 | Mae gwaith yn parhau i ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig. Mae'r gwaith technegol ynghylch canfod y bwlch ariannu ar draws y cyfnod bron wedi'i gwblhau. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar ddatblygu ymyriadau strategol priodol, gyda'r bwriad o gau'r bwlch ariannu a amcangyfrifir. |
| SA21 | Mae'r gwaith i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth olywodraethu ar draws y Cyngor yn parhau, a bydd yn dal ati i sicrhau bod hyfforddiant priodol yn digwydd gyda swyddogion y Cyngor. | Mawrth 2023 | Fel rhan o'r sesiynau Sefydlu i Aelodau, yn dilyn etholiadau lleol Mai 2022, mae'r swyddogion wedi darparu cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer yr aelodau ar brosesau llywodraethiant megis gwneud penderfyniadau, protocolau swyddogion/aelodau a'r côd ymddygiad. Darparwyd sesiynau hyfforddi tebyg i swyddogion, er enghraifft darparwyd cyfres o hyfforddiant ar bwysigrwydd y protocol aelodau/swyddogion i holl Reolwyr Atebol yr Amgylchedd ym mis Mehefin 2022. Mae sesiynau hyfforddi pellach a darparu nodiadau cyngor ad hoc i swyddogion wedi parhau ar hyd 2022/2023. |
| SA22 | Mireinio dull y Cyngor o gyflawni'r broses hunanasesu flynyddol | Medi 2023 | Bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn gynnar ym mlwyddyn galendr 2023, a bydd wedi'i seilio ar ymarferiad gwersi a ddysgwyd ac arfer da a nodwyd ar draws Cymru. |

# SUT I GYSYLLTU

01639 686868

www.npt.gov.uk

